



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Adolygiadau sy'n canolbwyntio ar unigolion ar gyfer teuluoedd

Beth i'w ddisgwyl yn y cyfarfodydd



Canllawiau

Dogfen wybodaeth: rhif 182/2015

Dyddiad cyhoeddi: Awst 2015

Adolygiadau sy'n canolbwyntio ar unigolion ar gyfer teuluoedd

Cynulleidfa Unrhyw riant neu aelod o deulu plentyn sy'n destun adolygiad sy'n canolbwyntio ar unigolion.

Trosolwg Mae'r ddogfen hon yn rhoi templed i deulu ei ddefnyddio i baratoi ar gyfer adolygiad sy'n canolbwyntio ar unigolion y mae ei blentyn yn destun iddo.

Camau i'w cymryd Ystyried defnyddio'r templed hwn i baratoi ar gyfer adolygiadau sy'n canolbwyntio ar unigolion.

Rhagor o wybodaeth Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon i:
Y Gyfarwyddiaeth Seilwaith, Cwricwlwm, Cymwysterau a Chymorth i Ddysgwyr
Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 029 2082 5789
e-bost: AdditionalLearningNeedsBranch@cymru.gsi.gov.uk

Copïau ychwanegol Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Dysgu Cymru yn llyw.cymru/dysgu

Dogfennau perthnasol *Pecyn cymorth adolygiadau sy'n canolbwyntio ar unigolion*
<http://dysgu.llyw.cymru/resources/browse-all/person-centred-reviewstoolkit/?lang=cy>

Atgynhychwyd delweddau gyda chaniatâd Julie Barclay.

Beth yw adolygiad sy'n canolbwyntio ar unigolyn?

Mae adolygiadau sy'n canolbwyntio ar unigolion yn ffordd o benderfynu pa gefnogaeth sydd ei hangen ar gyfer plentyn neu berson ifanc gydag anghenion addysgol arbennig neu a oes angen newidiad eu cefnogaeth.

Mae'n bwysig bod gan blant a phobl ifanc y bobl gywir yn cymryd rhan yn eu cyfarfod adolygu i'w helpu i gynllunio ar gyfer eu dyfodol. Mae hyn yn golygu y gall yr adolygiad wneud yn siŵr fod ganddynt y pethau sy'n bwysig iddynt, yn ogystal â'r gefnogaeth gywir i'w helpu i gyflawni eu dyheadau.

Pwy fydd yno?

Gall y plentyn neu berson ifanc ddewis pwy fydden nhw'n hoffi i fod yno, ond bydd hefyd rai pobl sy'n gorfod bod yno.

Weithiau gall llawer o bobl fod yn rhan o'r adolygiad, pobl fel gweithwyr iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg, yn ogystal â pherthnasau a ffrindiau.

I eraill, efallai mai dim ond chi, eich plentyn a rhywun o'r ysgol neu'r coleg fydd yno.

Ble a phryd fydd yr adolygiad?

Mae'n debyg y bydd yn yr ysgol neu'r coleg. Dylai'r amser a'r dyddiad fod yn gyfleus i chi a'ch plentyn yn ogystal ag unrhyw bobl eraill sy'n dod.

Bydd o leiaf un adolygiad y flwyddyn – bydd yr ysgol neu'r coleg yn gadael i chi wybod pryd y caiff ei gynnal.

Beth y dylech feddwl amdano cyn y cyfarfod?

Os byddwch yn mynychu'r adolygiad, yna bydd y llyfryn yma'n eich helpu i feddwl am y pethau rydych eisiau eu dweud a gallwch ei ddefnyddio i ysgrifennu pethau rydych eisiau cofio eu dweud ar y dydd.

Os na fyddwch yn yr adolygiad, gallai fod yn bwysig o hyd i'ch plentyn fod eich barn yn cael ei chlywed yn y cyfarfod. Os felly, mae'n bwysig iawn eich bod yn cymryd amser i feddwl am y cwestiynau, nodi eich sylwadau yn y blychau ac anfon y llyfryn yma i'ch ysgol neu'ch coleg erbyn y dyddiad y maent wedi'i nodi. Bydd hyn yn helpu i sicrhau y caiff eich barn ei chlywed yn y cyfarfod.

Beth fydd yn digwydd yn y cyfarfod?

Mae awyrgylch hamddenol mewn adolygiad sy'n canolbwyntio ar unigolyn sy'n wahanol iawn i gyfarfodydd traddodiadol eraill y gallwch fod wedi bod ynddynt.

Caiff popeth ei drefnu i fod mor anffurfiol ac mor gysurus ag sy'n bosibl.

Os yw'n gyfarfod bach, efallai mai dim ond sgwrs hamddenol fydd neu gall y cyfarfod gynnwys rhai o'r pethau yn yr ychydig baragraffau nesaf.

Os oes llawer o bobl yn dod, efallai na fydd bwrdd mawr ond gallai fod cerddoriaeth yn chwarae a phosteri neu ddarnau mawr o bapur ar y waliau. Darperir y rhain ar gyfer pawb sydd yno, gan eich cynnwys chi, i nodi'r hyn sy'n bwysig.

Bydd pob adolygiad yn newid i ddiwallu anghenion eich plentyn, sy'n rhan ganolog o'r cyfarfod.

Bydd gan un person, a elwir yn hwylusydd, y gwaith o wneud yn siŵr y gall pawb ddweud eu barn a bod y cyfarfod yn penderfynu ar dargedau a chymau gweithredu. Mae'r hwylusydd yn fwyaf tebygol o fod yn rhywun o'r ysgol neu'r coleg a dylech wybod cyn y cyfarfod pwy fydd yr hwylusydd.

Mae'r cyfarfod yn dechrau gyda phawb yn cyflwyno eu hunain ac efallai'n rhannu rhywbeth y maent yn ei hoffi neu'n ei edmygu am eich plentyn.

Bydd yr hwylusydd yn esbonio beth fydd yn digwydd yn y cyfarfod adolygu, ac yna caiff bawb gyfle i ddweud eu barn a'r hyn y maent yn ei wybod am eich plentyn.

Pan fydd pawb wedi gorffen rhoi eu sylwadau, byddwch i gyd yn meddwl ac yn siarad am yr hyn ddylai newid a pha ganlyniadau a thargedau y dymunwch eu gweld.

Bydd pawb wedyn yn cytuno beth ddylai ddigwydd i gefnogi eich plentyn i'w helpu i gyflawni ei ddyheadau.

Ar ddiwedd adolygiad

Erbyn diwedd yr adolygiad bydd yr hwylusydd yn gwneud yn siŵr y cytunwyd ar Gynllun Gweithredu.

Nod y Cynllun Gweithredu yw gwneud yn siŵr y gall pawb weld beth gaiff ei wneud i gefnogi eich plentyn i ddysgu a gwireddu eu breuddwydion.

Caiff popeth yn y Cynllun Gweithredu ei seilio ar yr hyn y gwnaethoch siarad amdano a chytuno arno yn y cyfarfod, gan gynnwys y sylwadau a'r syniadau y gwnaethoch chi a'ch plentyn eu rhannu.


Bydd y Cynllun Gweithredu yn dweud:

- pa gefnogaeth sydd ei hangen ar eich plentyn i ddysgu a datblygu
- pwy sy'n gyfrifol am wneud yn siŵr ei fod yn cael y gefnogaeth maent ei hangen (person a enwir)
- pryd a lle y byddant yn cael y gefnogaeth yma
- sut y byddwn yn gwybod os yw'r gefnogaeth wedi helpu eich plentyn yn y ffordd y bwriedid iddo.


Ar ôl y cyfarfod byddwch yn cael cyfle i ddarllen y Cynllun Gweithredu a meddwl am yr hyn gafodd ei gytuno a'i drafod gyda'ch plentyn.

Diben y cwestiynau yma yw eich helpu i feddwl beth y byddwch eisiau ei ddweud yn yr adolygiad canolbwyntio ar unigolyn a sut yr hoffech ddweud hynny.


Beth ydych chi'n ei hoffi, edmygu neu werthfawrogi fwyaf am eich plentyn?

A large, empty rectangular box with a thin black border, intended for a person to write their response to the question above. The box is oriented vertically and occupies most of the page's width and height.


Beth sydd wedi digwydd ers yr adolygiad diwethaf?

A large, empty rectangular box with a thin black border, intended for the user to write their response to the question above.


Beth ydych chi'n feddwl, o'ch safbwynt chi, yw dyheadau eich plentyn ar gyfer y dyfodol?

A large, empty rectangular box with a thin black border, intended for the respondent to write their answer to the question above.


Beth ydych chi'n feddwl yw'r pethau pwysicaf ym mywyd eich plentyn ar hyn o bryd?




Beth ydych chi'n feddwl sy'n bwysig ar gyfer eich plentyn er mwyn datblygu a symud ymlaen?

A large, empty rectangular box with a thin black border, intended for the user to write their response to the question above.


**Beth ydych chi'n feddwl y dylai pobl eraill ei wybod
neu ei wneud i helpu eich plentyn?**

A large, empty rectangular box with a thin black border, intended for the user to write their response to the question above.


Beth sy'n gweithio'n wirioneddol dda ym mywyd eich plentyn ar hyn o bryd o'ch safbwynt chi?

A large, empty rectangular box with a thin black border, intended for a respondent to write their answer to the question above. The box is currently blank.

Beth sydd ddim yn gweithio cystal ym mywyd eich plentyn ar hyn o bryd o'ch safbwynt chi?

A large, empty rectangular box with a thin black border, intended for the respondent to write their answer to the question above.

Oes gennych chi unrhyw gwestiynau neu sylwadau eraill?



Os na fyddwch yn dod i'r adolygiad, a fyddech cystal ag ateb cynifer o'r cwestiynau ag yr hoffech ac wedyn dychwelyd y ffurflen hon, at yn erbyn /..... /..... os gwelwch yn dda. Byddwn wedyn yn sicrhau y caiff eich sylwadau, syniadau a chwestiynau eu cynnwys yn yr adolygiad.

Diolch i chi am roi o'ch amser i gymryd rhan yn yr adolygiad hwn sy'n canolbwyntio ar unigolyn.